## Prosiect Dyfodol Venue Cymru Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Mawrth 2026

## Venue Cymru Futures Project Update

March 2026




**Gwnewch eich hun yn braf — mae llawer o wybodaeth i’w rhannu yn y diweddariad hwn  (ewch i nôl paned o goffi ☕ )**

**Settle in — there’s a lot to take in with this update  (grab yourself a coffee ☕ )**

Roeddwn i eisiau anfon nodyn bach atoch chi i rannu'r cynnydd gwych rydyn ni wedi'i wneud ar brosiect Dyfodol Venue Cymru dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae'n gyfnod cyffrous i'r prosiect ac mae llawer mwy i edrych

I just wanted to drop you a quick note to share the fantastic progress we’ve made on the Venue Cymru Futures project over the past few months. It’s an exciting time for the project, and there’s plenty more to look forward to!

ymlaen ato! Byddwch yn clywed gennym ni’n fwy rheolaidd o hyn ymlaen, ond yn gyntaf, roeddem eisiau sicrhau eich bod yn ymwybodol o’r wybodaeth ddiweddaraf.

You’ll be hearing from us more regularly from now on, but first, we wanted to make sure you’re fully up to speed.

**Cyfarwyddwr Prosiect ymrwymedig wedi'i benodi**

**Project Director appointed and on board**




Bydd **Jeremy Bragg** o **Plann** yn dod ag arweinyddiaeth gref i'n llywio drwy'r daith drawsnewidiol hon. Bydd Cyfarwyddwr y Prosiect, a'i gydweithwyr, yn gweithio'n agos gyda gweddill tîm y prosiect i gyflawni'r cynlluniau llawn a llywio'r prosiect.

**Jeremy Bragg** of **Plann** will bring strong leadership to steer us through this transformational journey. The Project Director, and his colleagues, will be working closely with the rest of the project team to deliver the full plans and drive the project forward.

**Rhagfyr:**
Daeth Jeremy a'i gydweithwyr i Landudno am daith o amgylch y llyfrgell a Venue Cymru. Maen nhw wedi dechrau ar unwaith ac wedi cyhoeddi dogfennau tendr y Tîm Dylunio ychydig cyn y Nadolig.

**December:**

Jeremy and colleagues came to Llandudno for a tour of the library and of Venue Cymru. They have hit the ground running and published the Design Team tender documents just before Christmas.

**Ionawr:**

Mae Plann wedi dechrau gweithio ar waith sganio 3D yr adeilad i helpu gyda'r cyfnod dylunio, ac wedi rhoi'r dasg o ddechrau'r broses ddylunio ar gyfer y seddi a'r cynllun i'r Arbenigwr Awditoriwm.

Bydd rhagor o newyddion am hyn yn fuan!

**January:**

Plann have begun work on the 3D Scanning of the building to help with the design phase and tasked their Auditorium Specialist with beginning the design process on the seating and layout.

More news on this soon!

**Cyllid mawr wedi'i sicrhau**

Rydym wedi llwyddo i fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd ariannu, gan agor y drws i welliannau ar draws y prosiect. Mae'r lefel hon o gefnogaeth yn dweud llawer am yr hyder yn ein gweledigaeth.

**Major Funding Secured**

We've successfully tapped into a range of funding opportunities, opening the door to improvements across the project. This level of support speaks volumes about the confidence in our vision.

**Llywodraeth y DU, £10 miliwn**

Twf ac adfywio rhanbarthol i'w sbarduno gan arian ychwanegol i brosiectau diwylliannol allweddol Cymru - GOV.UK

**UK Government £10m**

Regional growth and regeneration to be sparked by cash boost for Wales' critical culture projects - GOV.UK

**Cyngor Celfyddydau Cymru £1 miliwn**

40 sefydliad celfyddydol yng Nghymru i elwa o Gronfa Buddsoddi Cyfalaf gwerth £8 miliwn | Arts Council of Wales

**Arts Council of Wales £1m**

40 arts organisations in Wales to benefit from £8m Capital Investment Fund | Arts Council of Wales

**Uchelgais Gogledd Cymru £5 miliwn**

Wedi'i gadarnhau yn amodol ar wybodaeth

**Ambition North Wales £5m**

cynllunio busnes bellach a chadarnhad o ganiatâd cynllunio ar gyfer yr estyniad [Uchelgais Gogledd Cymru | Dyfodol Venue Cymru]

**Trawsnewid Trefi £2 filiwn**

[Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £2 miliwn i drawsnewid Venue Cymru | LLYW.CYMRU]

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl gyrff ariannu am gefnogi'r prosiect hwn.

This is confirmed subject to further business planning information and confirmation of Planning permission for the extension [Ambition North Wales | Venue Cymru Futures]

**Transforming Towns £2m**

[Welsh Government invests £2 million in Venue Cymru transformation | GOV.WALES]

We are incredibly gratefully to all the funding bodies for supporting this project.

**Archebu cit Sain, Goleuo ac AV**

Bydd buddsoddiad yn yr offer Sain, Goleuo ac AV yn Venue Cymru yn diweddaru'r offer ac yn atgyfnerthu'r ffaith mai dyma un o'r lleoliadau blaenllaw yn y wlad.

Rydym newydd gadarnhau archeb gwerth £1.5 miliwn i gyflawni'r diweddariadau hyn, gan gynnwys:

Cael gwared â’r unedau pylu LD90 sydd yno ar hyn o bryd a gosod switsys trosglwyddo yn eu lle. Gosod isadeiledd newydd ar gyfer gwifrau goleuadau, sain a chlywedol. Gosod system galw cefn llwyfan, system gyfnewid sioe fideo a system sain newydd.

**Sound, Lighting & AV kit ordered**

Investment in the Sound, Lighting, and AV equipment in Venue Cymru will bring kit up to date and reinforce the fact that it is one of the leading venues in the country.

We have just confirmed an order worth £1.5 million to carry out these upgrades, including:

Replace the LD90 Dimmers with switched relays. Install new lighting, sound and audio-visual wiring infrastructure and the install of new backstage paging, video show relay system and PA system.

**Gwaith ac offer arall a archebwyd**

Diolch i'r cyllid a gafwyd rydym hefyd wedi:

- Archebu goleuadau dilyn LED gwerth £40,000
- Comisiynu gwaith adnewyddu a diweddaru Lifft y Pwll Cerddorfa
- System sain newydd o'r radd flaenaf ar gyfer yr arena
- Teils carped newydd ar gyfer yr arena
- Mynd allan i dendr am gadeiriau newydd ar gyfer cynadleddau
- Mynd allan i dendr am arwyddion digidol newydd
- Comisiynu gantri mynediad newydd i'r fentiau mwg uwchben y llwyfan
- Cael dyfynbrisiau i ddarparu systemau aerdymheru i'r ystafelloedd rheoli a'r ystafelloedd pylu
- Ymgymryd â gwaith cynllunio i ddechrau gwerthu eitemau Canolfannau Croeso o Venue Cymru wrth i ni symud tuag at gydleoli

**Other work and equipment ordered**

Thanks to the funding achieved we have also:

- Ordered LED Follow spots worth £40,000
- Commissioned the refurbishment and upgrade of the Orchestra Pit Lift
- New high specification arena PA system
- Ordered new carpet tiles for the arena
- Gone out to tender for new conference chairs
- Gone out to tender for new digital signage
- Commissioned a new access gantry to the smoke vents above the stage
- Received quotations to provide air conditioning to the control rooms and dimmer rooms
- Undertaken planning to start selling TIC items from Venue Cymru as we move towards a co-location

**Beth sydd ar y gorwel**

**Y dyluniadau a'r cynlluniau terfynol**

Rydym yn paratoi i benodi tîm dylunio ddechrau 2026. Eu hamcanion? Edrych o'r

**Here's what's ahead**

**Finalised designs and plans**

We're gearing up to appoint a design team in early 2026. Their objective? To take a fresh

newydd ar y prosiect cyfan a dod â chysyniadau beiddgar a chreadigol i ni a fydd yn ysbrydoli ac yn creu argraff wirioneddol ar ein cynulleidfaoedd.

look at the entire project and bring us bold, creative concepts that will truly inspire and wow our audiences.

**Cynlluniau i ddiweddaru seddi'r awditoriwm**

Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â'r gwaith cyffrous o ailgynllunio seddi'r awditoriwm, a fydd yn darparu seddi mwy cyfforddus ac yn rhyddhau lle o dan y seddi lle rydym yn gobeithio gosod bar a darparu storfa ar gyfer y llyfrgell.

**Auditorium seating upgrade plans**

We'll also tackle the exciting job of redesigning the auditorium seating, which will provide more comfortable seating and free up room underneath the seats where we hope to recess the bar and provide storage for the library.

**Ceisiadau cynllunio llawn**

Unwaith y bydd y Tîm Dylunio wedi diweddaru'r cynlluniau ar gyfer estyniad yr adeilad, byddwn yn symud ymlaen i gael caniatâd cynllunio llawn. Rydym eisoes wedi cael adborth o'n cyflwyniad Cyn-Ymgeisio ac rydym yn obeithiol na fydd y cais Cynllunio yn wynebu gormod o rwystrau ar hyd y daith.

**Full planning applications**

Once the Design Team have updated the plans for the building extension we'll move forwards to gain full planning permission. We've already had feedback from our Pre-Application submission and we are hopeful that the Planning application won't hit too many bumps in the road.

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Dwristiaid**

Mae'r Tîm Gwybodaeth i Dwristiaid wedi bod yn gweithio'n galed i lunio cynnig gwasanaeth datblygiedig a modern wrth baratoi ar gyfer eu symud i'w lleoliad newydd. Gyda'r diwrnod gweithredu cyntaf yn Venue Cymru wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Mai 2026, bydd y cyfnod ar ôl y

**Tourist Information Service**

The Tourism Information team have been hard at work shaping an enhanced, modernised service offer in preparation for their upcoming move. With the first day of operation at Venue Cymru planned for early May 2026, the period after Easter will be a busy one as the team prepare, pack up the current unit, and finalise the move.

Pasg yn un prysur wrth i'r tîm baratoi, pacio'r uned bresennol a chwblhau'r symud.

Byddwn mewn cysylltiad cyn bo hir i ofyn am gefnogaeth gyda rolau Cefnogwyr Staff a chyfarfodydd bord gron pellach i wneud yn siŵr ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle gwych hwn.

Diolch am fod yn rhan o'r siwrnai gyffrous hon!  Mae pob carreg filltir yn nodi cynnydd gwirioneddol sy'n mynd â ni gam yn agosach at Venue Cymru, llyfrgell a chanolfan groeso ar eu newydd wedd mewn un lleoliad, gyda chyfleusterau newydd a ffyrdd modern o weithio a fydd yn atgyfnerthu ein heffaith a'n gwydnwch. Cadwch lygad allan am fwy o ddiweddariadau – ac os oes gennych chi syniadau neu gwestiynau, byddem wrth ein bodd yn clywed.

Siaradwch â'ch rheolwr atebol neu anfonwch e-bost atom - vcf@conwy.gov.uk

We will be in touch soon to ask for support with Staff Champion roles and further round-table meetings to make sure we make the best of this fantastic opportunity.

Thanks for being part of this exciting journey! Each milestone marks real progress, moving us towards a re imagined Venue Cymru, library and tourist information services with new facilities, co location and modern ways of working that will strengthen our impact and resilience. Stay tuned for more updates – and if you've got ideas or questions, we'd love to hear.

Have a word with your line manager or drop us an email to vcf@conwy.gov.uk

**Sarah Ecob**

**Pennaeth Gwasanaeth – Economi a Diwylliant**
**Head of Service - Economy and Culture**

Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol
County Borough Council